

Datganiad Polisi Amgylcheddol

Mae Dŵr Cymru'n cydnabod bod gwarchod ein hamgylchedd yn rhan annatod o'n busnes a'i bod yn hanfodol er mwyn gwireddu gweledigaeth y cwmni, sef ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd a bod yn wasanaeth gwydn, a chynaliadwy sydd gyda'r gorau yn y byd er budd cenedlaethau'r dyfodol. Trafodir hyn ymhellach yn Dŵr Cymru 2050 ac yn ein Strategaeth Bioamrywiaeth. Mae ein gweledigaeth yn ein hysgogi i weithredu mewn modd mwy a mwy cynaliadwy, i werthuso a rheoli ein heffeithiau ar yr amgylchedd a hybu mwy o ymwybyddiaeth ymysg ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a phawb sydd â buddiant yn ein gwaith. Bydd Dŵr Cymru'n chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella perfformiad amgylcheddol a bydd yn arloesi wrth greu ac wrth fabwysiadu arferion gorau cydnabyddedig yn nhermau cynaliadwyedd.

Fe gyflawnwn ni hyn trwy:

- Sicrhau bod yr uwch reolwyr yn dangos arweinyddiaeth ac ymroddiad trwy gymryd atebolrwydd dros effeithiolrwydd y System Rheoli Amgylcheddol, gan sicrhau ei bod yn cael ei hintegreiddio i gyfeiriad a phrosesau strategol y sefydliad gan ddefnyddio dull o weithredu sy'n seiliedig ar risg.
- Darparu fframwaith ar gyfer sefydlu, adolygu, a chyhoeddi ein targedau, amcanion a pherfformiad amgylcheddol.
- Ymrwmo i warchod yr amgylchedd trwy atal, lleihau a lliniaru effaith unrhyw allyriadau sy'n llygru ar yr amgylchedd yn unol â'n trwyddedau a thrwy ddefnyddio a rhannu 'arferion gorau' sy'n cael eu gweithredu trwy systemau a strategaethau rheoli amgylcheddol effeithiol â'r bwriad o sicrhau gwelliannau parhaus.
- Ymrwmo i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol ac eraill sy'n berthnasol (gan gynnwys Safonau MCERTS ar gyfer Hunan- fonitro Llif Elifiant) i'n System Rheoli Amgylcheddol.
- Ymrwmo i wella effeithiolrwydd ein System Rheoli Amgylcheddol yn barhaus trwy fanteisio'n llwyr ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein cydweithwyr, a thrwy raglenni hyfforddi a datblygu a gynllunnir ymlaen llaw.
- Cyfleu cynnwys y Polisi Amgylcheddol i gydweithwyr yn Dŵr Cymru a phobl eraill sydd â buddiant yn ein gwaith.
- Yn amodol ar gyllid, ymrwmo i gyflawni 'dim allyriadau' yn gyson â'r targedau y mae Llywodraeth Cymru'n eu pennu a hyrwyddo llai o deithio trwy ddefnyddio technoleg a dulliau arloesol i leihau ein Hôl Troed Carbon.
- Pwylgor yr Amgylchedd, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Bwrdd i ddarparu trosolwg manwl o'n strategaeth, ac adrodd ar y cynnydd yn ein hadroddiad blynyddol.
- Ymdrechu i ddefnyddio cyflenwyr amgylcheddol-gyfrifol a chydweithio â chyflenwyr presennol a darpar-gyflenwyr er mwyn hyrwyddo gwelliannau amgylcheddol. Annog defnydd effeithiol o ddeunyddiau a chyflenwadau, gan hyrwyddo defnydd o'r hierarchaeth gwastraff a'r economi gylchol yn gyson â'n polisi caffael cynaliadwy.
- Datblygu amcanion System Rheoli Amgylcheddol Dŵr Cymru yn seiliedig ar agweddau o'n gwaith sy'n arwyddocaol o ran yr amgylchedd ac o ran cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol. Caiff yr amcanion hyn eu hadolygu'n rheolaidd â'r nod o sicrhau gwelliannau parhaus.
- Defnyddio ynni mor effeithlon ag y bo modd, a hybu a hwyluso'r defnydd o dechnoleg amgylcheddol briodol ar draws y busnes i gyd.

Mae pawb yn Dŵr Cymru'n gyfrifol am wneud y peth iawn dros yr Amgylchedd.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a phan fo newidiadau arwyddocaol a/neu berthnasol yn codi.



Peter Perry

Prif Weithredwr | Dŵr Cymru

Ebrill 2024